# Trefnu a goruchwylio teithio

## Trosolwg

**Ar gyfer pwy mae'r uned hon**

Mae'r uned hon ar gyfer y rhai sy'n trefnu teithio sy'n cynnwys plant a phobl ifanc o dan oruchwyliaeth oedolion, e.e. ar gyfer teithio o'r cartref-i'r-ysgol, ymweliadau addysgol, astudiaethau maes neu gemau chwaraeon.

**Am beth mae'r uned hon?**

Mae'r uned hon yn ymwneud â threfnu a goruchwylio teithio i blant, pobl ifanc ac oedolion. Gall teithio fod 'wedi ei bweru eich hun', e.e. ar droed neu ar feic, mewn cerbyd sy'n eiddo neu'n cael ei logi, neu ar drafnidiaeth gyhoeddus.

**Mae'r uned hon yn cynnwys dwy elfen:**

1. Gwneud trefniadau teithio
2. Goruchwylio teithio.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

**Gwneud trefniadau teithio**

P1 cynllunio **trefniadau teithio** sy'n briodol i ofynion y **siwrnai** ac anghenion y **rhai sy'n cymryd rhan**

P2 cynllunio trefniadau teithio sy'n cydbwyso effeithlonrwydd, cost-effeithiolrwydd, cyfforddusrwydd a'r effaith ar yr amgylchedd

P3 cynllunio ar gyfer argyfyngau tebygol

P4 cynllunio trefniadau teithio sy'n ddiogel ac yn ystyried yr amodau tebygol yn ystod y daith

P5 rhoi gwybodaeth glir, gywir a chyfredol i'r rhai sy'n cymryd rhan a'r aelodau staff am y trefniadau teithio mewn da bryd

P6 gwneud yn siŵr bod y rhai sy'n cymryd rhan a'r staff yn barod ar gyfer y daith

P7 dilyn yr holl ofynion cyfreithiol a sefydliadol perthnasol ar gyfer y daith

**Goruchwylio teithio**

P8 cymryd camau rhesymol i wneud yn siŵr bod y rhai sy'n cymryd rhan yn cyrraedd ac yn ymadael ar **amser**

P9 cynnal diogelwch y rhai sy'n cymryd rhan yn ystod y **daith**

P10 gwneud yn siŵr bod cyfarpar, eiddo ac unrhyw ddogfennau teithio yn ddiogel yn ystod y daith

P11 goruchwylio'r modd y mae cyfarpar ac eiddo yn cael eu trin er mwyn osgoi anaf a difrod

P12 cymryd camau rhesymol i wneud yn siŵr bod cerbydau ac atodiadau o dan eich rheolaeth, a bod eich rheolaeth o'r cerbydau hyn yn cydymffurfio â gofynion sefydliadol a chyfreithiol

P13 delio ag unrhyw anawsterau yn ystod y daith mewn ffordd sy'n cynnal diogelwch, diogeledd, cyfforddusrwydd ac ewyllys da y rhai sy'n cymryd rhan

P14 cadw cofnodion gofynnol yn gywir ac yn gyfredol

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

K1 y prif ffactorau i'w hystyried wrth drefnu teithio, yn enwedig y rhai sy'n ymwneud â diogelwch a diogeledd y rhai sy'n cymryd rhan
K2 yr adnoddau a'r trefniadau a allai fod eu hangen ar gyfer pobl anabl
K3 trefniadau teithio sy'n briodol i ystod y rhai sy'n cymryd rhan, yr ystod o deithiau a'r mathau o raglenni yr ydych chi'n cymryd rhan ynddynt
K4 pwysigrwydd gwneud yn siŵr bod trefniadau teithio yn ystyried yr amodau tebygol a sut mae'r amodau tebygol yn gallu effeithio ar y mathau o trefniadau
K5 pwysigrwydd rhoi gwybodaeth gyfredol a chywir i'r rhai sy'n cymryd rhan a staff eraill am drefniadau teithio mewn da bryd a beth all fynd o'i le os na wneir hyn
K6 y paratoadau y byddai'n rhaid i'r rhai sy'n cymryd rhan a'r aelodau staff eu gwneud ar gyfer yr ystod o deithiau
K7 beth allai ddigwydd yn yr ystod o deithiau a'r cynlluniau a restrir a pha gynlluniau i'w gwneud i ystyried y rhain
K8 y gofynion sefydliadol a chyfreithiol sy'n llywodraethu trefniadau teithio i'r rhai sy'n cymryd rhan
K9 pa gamau i'w cymryd i wneud yn siŵr bod y rhai sy'n cymryd rhan yn cyrraedd ac yn gadael yn ddiogel ac ar amser
K10 pwysigrwydd sicrhau diogelwch a lles y rhai sy'n cymryd rhan yn ystod y daith a sut i wneud hynny
K11 y mathau o ymddygiad i beidio â'i annog yn ystod y mathau o deithiau a restrir, a sut i wneud hynny gydag ystod y rhai sy'n cymryd rhan a restrir
K12 sut i gynnal diogelwch a diogeledd cyfarpar, eiddo a dogfennau teithio yn ystod y mathau o deithiau a restrir
K13 technegau trin a storio diogel
K14 gofynion trefniadol a chyfreithiol o ran cyflwr cerbydau a'u rheoli
K15 y mathau o anawsterau a allai godi yn ystod y daith a sut i ddelio â'r rhain
K16 canllawiau ac arfer da o ran parcio cerbydau
K17 cofnodion y mae angen eu cadw a phwysigrwydd gwneud hynny

## Cwmpas/Ystod cysylltiedig â meini prawf perfformiad

**Gwneud trefniadau teithio**

1. **trefniadau teithio**
1.1. dull o deithio
1.2. llwybr
1.3. amseroedd cyrraedd a gadael
1.4. camau yn y daith
1.5. bwyd a diod
1.6. cyfforddusrwydd a hylendid
1.7. llety dros nos
1.8. goruchwylio a chynorthwyo
1.9. cludo cyfarpar ac eiddo

2. **teithiau**
2.1. pweru eich hun
2.2. mewn cerbyd sefydliad/wedi'i logi
2.3. trafnidiaeth gyhoeddus

**Y rhai sy'n cymryd rhan**

2.4. oedolion
2.5. plant a phobl ifanc
2.6. pobl ag anghenion penodol ar gyfer teithio

**Goruchwylio teithio**

3. **teithiau**
3.1. pweru eich hun
3.2. mewn cerbyd sefydliad/wedi'i logi
3.3. trafnidiaeth gyhoeddus

4. **y rhai sy'n cymryd rhan**
4.1. oedolion
4.2. plant a phobl ifanc
4.3. pobl ag anghenion penodol ar gyfer teithio

## Geirfa